Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangyfelach

**Heol Pengors**
**Llangyfelach**
**Abertawe**
**SA5 7JE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llangyfelach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | YSGOL GYNRADD LLANGYFELACH |
| Awdurdod lleol | Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 252 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 168 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 54 |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%)* | 6.8% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 4% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.6% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2012 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 3 Mai 2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Llangyfelach yn amgylchedd tawel a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel. Mae staff yn gweithio’n galed ar draws yr ysgol i roi i ddisgyblion y cymorth sydd ei angen arnynt yn eu gwaith a’u datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Er enghraifft, caiff ‘Clwb Dim Gwgu’ (‘Turn Your Frown Upside Down Club’) effaith gadarnhaol ar les ac mae’n un o ffefrynnau cadarn llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ffocws cryf ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ym mhob dosbarth, yn enwedig yn dilyn y pandemig, ac mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i wneud yn siŵr fod disgyblion yn cyflawni’n dda wrth ddefnyddio’r medrau hyn. Fodd bynnag, mae safonau llawysgrifen ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol ac nid yw disgyblion bob amser yn cyflwyno’u gwaith yn ddigon da.

Mae arweinwyr a staff yn meddwl yn ofalus am gwricwlwm yr ysgol ac yn dechrau datblygu themâu diddorol sy’n annog chwilfrydedd ac yn cysylltu dysgu disgyblion mewn gwahanol bynciau gyda’i gilydd. Megis dechrau datblygu y mae’r dulliau hyn, ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fod yn greadigol a deall yr amrywiaeth ddiwylliannol ledled Cymru yn fwy cyfyngedig.

Mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion yn dda, ar y cyfan. Maent yn defnyddio holi yn effeithiol i annog disgyblion i feddwl am eu dysgu ac yn rhoi adborth effeithiol, y mae disgyblion yn gweithredu arno i wneud eu gwaith yn well. Pan fydd angen gwella, mae angen i athrawon helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o’r hyn y maent yn ceisio’i gyflawni, a sut orau i wneud eu gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu llais cryf o fewn yr ysgol. Cânt gyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu trwy eu grwpiau disgyblion, y mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â meysydd cwricwlwm yr ysgol. Ym mhob dosbarth, caiff disgyblion eu hannog i fod yn chwilfrydig a mynegi eu syniadau wrth weithio gyda’u hathrawon i gynllunio gweithgareddau dysgu mewn prosiectau dosbarth.

Mae gan y pennaeth weledigaeth gref ar gyfer yr ysgol, ac fe gaiff ei gefnogi’n dda gan uwch arweinwyr a staff wrth symud y weledigaeth hon ymlaen. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi creu dyddlyfrau dysgu defnyddiol sy’n adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol, sy’n dechrau cynorthwyo disgyblion i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr ar draws yr ysgol yn gweithio gyda’i gilydd yn dda iawn i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Un o gryfderau’r ysgol yw ymglymiad bron pob aelod o staff ac ystod o ddisgyblion yn y broses hon.

## Argymhellion

A1 Rhannu arfer dda o ran dylunio’r cwricwlwm ar draws yr ysgol

A2 Lleihau’r amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol trwy ddefnyddio enghreifftiau presennol o arfer effeithiol

A3 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Er bod y pandemig wedi tarfu ar gynnydd dysgu i leiafrif o ddisgyblion, mae'r ysgol wedi rhoi cymorth pwrpasol ar waith i ailsefydlu medrau sylfaenol disgyblion a chefnogi eu lles. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion, yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac yn awyddus i ateb cwestiynau. Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn gwrando ar gyfarwyddiadau'r athro, ac yn eu dilyn yn gywir, er enghraifft yn ystod gweithgaredd datblygiad corfforol. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn huawdl, yn synhwyrol, ac yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Maent yn siarad yn rhwydd am eu dysgu ac yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau a ofynnir yn ystod gweithgareddau dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau yn hyderus i lefel sy'n addas i'w hoedran a'u cam datblygu. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn dechrau datblygu eu medrau darllen cynnar ac yn adnabod llythrennau a geiriau byr yn hawdd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn siarad am lyfrau y maent yn eu mwynhau. Maent yn amrywio tôn eu llais wrth iddynt ddarllen, i gyfleu ystyr ac effaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gynnwys a chyd-destun y testun y maent yn ei ddarllen. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion sy'n ddarllenwyr llai hyderus yn datblygu eu medrau ffoneg yn ddigon da ac mae hyn yn effeithio ar eu rhugldder wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfleu eu syniadau'n glir ac yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o ramadeg gyda hyder cynyddol. Yn y dosbarth derbyn, mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu ymagweddau cynnar at ysgrifennu gyda chymorth gan oedolion, er enghraifft wrth ysgrifennu ffurflen gais i ymuno â 'Go Jetters', sef grŵp sy'n helpu gwneud y byd yn lle gwell.

Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn ysgrifennu'n aeddfed am eu hoedran, er enghraifft wrth greu cyfarwyddiadau manwl ar sut i bobi cacen sbwng Victoria, fel rhan o'u gwaith ar yr Ail Ryfel Byd. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn defnyddio cyflythrennu, odl, a phersonoli yn aeddfed, wrth ysgrifennu eu Cerdd i Ffrind. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad yn amrywio ar draws yr ysgol, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu arddull lithrig o ran llawysgrifen.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf â'u medrau mathemateg a rhifedd. Mae disgyblion derbyn yn datblygu eu dealltwriaeth o rif yn llwyddiannus, er enghraifft wrth weithio gydag arian, maent yn deall os yw tedi bêr yn costio 6c, mae angen darn arian 5c ac 1c arnynt. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol, mae disgyblion yn parhau i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio eu medrau rhifedd, ac yn dechrau datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau rhif. Mae disgyblion ym

Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn defnyddio dulliau ysgrifenedig yn fedrus i ddatrys problemau adio a thynnu syml, ac yn adnabod ac yn enwi amrywiaeth o siapiau rheolaidd ac afreolaidd. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn datblygu medrau meddwl da mewn mathemateg ac yn defnyddio gwybodaeth yn dda i fynd i'r afael â phroblemau mwy cymhleth. Er enghraifft, maent yn dehongli tablau yn llwyddiannus i drosi gwerthoedd ariannol imperial i ddegolyn fel rhan o brosiect am yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol cryf, nid ydynt bob amser yn ymarfer ac yn ymestyn y rhain mewn cyd-destunau mwy heriol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau datblygu medrau iaith priodol yn Gymraeg. Mae disgyblion iau yn dangos brwdfrydedd naturiol dros y Gymraeg, gan ymateb i gwestiynau sylfaenol gan oedolion. Mae disgyblion hŷn fel arfer yn deall gorchmynion a chyfarwyddiadau sylfaenol ac yn defnyddio'r adnoddau yn eu hystafelloedd dosbarth i ymestyn eu hatebion ysgrifenedig a llafar. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn defnyddio sgaffaldiau defnyddiol i gynhyrchu darnau o ysgrifennu estynedig yn Gymraeg, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr Nadolig neu ddisgrifio'u profiad fel ffoadur. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer medrau Cymraeg, ac o ganlyniad, nid oes gan lawer o ddisgyblion hyder wrth ddefnyddio Cymraeg llafar.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn datblygu a defnyddio eu medrau digidol. Mae disgyblion o bob oed yn defnyddio ystod eang o dechnoleg i ddatblygu eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn cymhwyso'u medrau digidol ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn gwneud gwaith ymchwil annibynnol ar eu testun dosbarth, ac mae disgyblion hŷn yn codio algorithm i wneud i fodel tegan symud.

Pan fydd y cyfleoedd yn codi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau creadigol. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau celf a chrefft ac yn siarad â chyffro am eu gwaith, er enghraifft wrth esbonio pam maent wedi dewis cyfryngau fel pensiliau, dyfrlliwiau a phinnau ffelt ar gyfer eu gwaith. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio offer digidol yn hyderus i greu a golygu ymadroddion cerddorol wrth ymchwilio i dechnegau a ddefnyddir gan gerddor poblogaidd. Er bod y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig wedi rhwystro cynnydd, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau creadigol yn eithaf cyfyngedig ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ymddygiad ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Mae cod yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu perthnasoedd da gyda'i gilydd a gydag oedolion, ac mae systemau ymgorfforedig fel strategaeth 'mae'n dda bod yn wyrdd' ('good to be green') yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion o bob oedran yn deall pwysigrwydd dilyn rheolau wrth weithio gyda'i gilydd yn y dosbarth i hyrwyddo ethos cadarnhaol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, yn dangos parch i'w gilydd ac agweddau gofalgar tuag at ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y 'Clwb Dim Gwgu' ('Turn Your Frown Upside Down Club'), sy'n cynorthwyo disgyblion o bob oedran i

ddatblygu ymagwedd gadarnhaol at eu lles. Mae disgyblion yn amlygu bod hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol ac yn enghraifft dda o ymrwymiad yr ysgol i'w lles.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth. Mae grwpiau sefydledig llais y disgybl yn hyrwyddo hawliau disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae grŵp 'Helpwyr Iach a Hapus' ('Healthy, Happy, Helpers') yn arwain gwaith yr ysgol o amgylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae disgyblion ym mhob un o'r grwpiau hyn yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at flaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae grŵp 'Dewiniaid Math' ('Math Magicians') wedi edrych ar waith disgyblion ac wedi gwrando ar ddysgwyr am eu profiadau mathemateg yn yr ystafell ddosbarth i nodi beth sy'n gweithio'n dda, a beth mae angen ei wella.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a diet iach. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn dysgu sut i gynllunio pryd bwyd cytbwys fel rhan o'u prosiect am agor caffi lleol. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn mynychu gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol ac yn falch o gynrychioli eu hysgol mewn cystadlaethau lleol. Caiff datblygiad corfforol a chymdeithasol disgyblion ei gefnogi'n dda trwy brosiectau fel prosiect garddio 'Good Thymes Gardening Project', lle mae disgyblion a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r amgylchedd awyr agored.

Mae disgyblion yn deall eu rôl o fewn y gymuned leol a'r byd ehangach. Maent yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus ac yn dangos hyn mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dylunio a chreu Cardiau Nadolig ar gyfer hen bobl sy'n cael eu hanfon allan ynghyd â chyfraniadau o'r banc bwyd lleol. Yn fwy diweddar, mae disgyblion wedi cefnogi'r apêl leol sy'n helpu pobl yn Wcráin.

Yn aml, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar athrawon ac yn awgrymu ffyrdd ymlaen o wella'u dysgu. Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau datblygu eu medrau annibynnol yn dda ac yn defnyddio matrics cwestiynau'r ysgol i wneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae disgyblion hŷn yn dechrau defnyddio dyddlyfrau dysgu'r ysgol yn effeithiol i ddeall beth sy'n gwneud dysgwr da a sut i gymhwyso'r wybodaeth hon i'w gwaith annibynnol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion ym mhob dosbarth yn dibynnu gormod ar gyfarwyddyd dan arweiniad athro o hyd.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr, staff a disgyblion wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae staff yn dechrau cynllunio a darparu ystod o brofiadau dysgu difyr sy'n adlewyrchu ethos a disgwyliadau'r cwricwlwm newydd. Maent wedi cydweithio i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd ar draws pob maes dysgu a phrofiad, ac yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer grwpiau llais y disgybl i ddylanwadu ar brofiadau dysgu.

Mae staff yn datblygu ystod o brosiectau dosbarth sy'n ysgogi diddordebau disgyblion ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bresennol. Pan fyddant yn fwyaf effeithiol, mae'r themâu hyn yn ddifyr ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso a dyfnhau eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, edrychodd testun diweddar ar effaith yr Ail Ryfel Byd ar yr ardal leol, gan gynnwys yr effaith a gafodd y 'blitz' ar Abertawe. Mwynhaodd disgyblion gysylltu hyn â'u hardal leol, a buont yn gweithio'n effeithiol wrth gymhwyso'u medrau yn greadigol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, siaradodd disgyblion â gwybodaeth ac angerdd am eu dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r profiadau dysgu a gynlluniwyd yn galluogi disgyblion i wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng pynciau nac yn datblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol Cymru yn ddigon da.

Ar ôl llacio cyfyngiadau'r pandemig yn ddiweddar, mae'r ysgol yn dechrau ailgyflwyno teithiau ac ymweliadau i ehangu'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion a staff yn gweithio ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Penllergaer i wella'r amgylchedd lleol. Mae staff yn dechrau defnyddio gofod awyr agored cyfyngedig yr ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio tasgau 'Dydd Mercher Esgidiau Glaw' ('Welly Wednesday') i helpu disgyblion i ddysgu am yr amgylchedd.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth glir o anghenion datblygiadol disgyblion iau, ac maent yn datblygu ystod o brofiadau dysgu priodol i'w helpu i ymarfer a datblygu eu medrau mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Caiff disgyblion yn y meithrin a'r derbyn gyfleoedd i chwarae'n rhydd ag ystod briodol o adnoddau y trefnir eu bod ar gael iddynt. Caiff disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 gyfle i gymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau difyr, y maent yn eu dewis yn annibynnol, er enghraifft i ddefnyddio llyfrau i ymchwilio i wahanol fathau o gregyn neu ddatrys her fathemateg yn cynnwys hufen iâ.

Mae athrawon a staff cymorth yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn eu trin â pharch. Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc dda ac yn esbonio a datblygu cysyniadau allweddol yn effeithiol, er enghraifft sut mae'r cylch dŵr yn gweithio. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu meddwl a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol trwy ofyn cwestiynau treiddgar. Yn achlysurol, fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o amser i ddisgyblion siarad â'i gilydd a datblygu eu meddwl yn ddigon da.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys cael bwriadau dysgu clir a darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio enghreifftiau o gerddi wedi'u modelu'n dda sy'n cael eu perfformio gan yr athro i wella'u gwaith eu hunain a beirniadu gwaith ei gilydd. Fodd bynnag, mae ansawdd yr arfer hon yn anghyson ar draws yr ysgol, ac mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion bob amser yn deall diben neu ddeilliannau disgwyliedig eu dysgu.

Mae gan yr ysgol bolisi marcio cytûn a ddefnyddir yn gyson gan ddisgyblion a staff i amlygu meysydd i wella gwaith disgyblion. Mae mwyafrif y staff yn defnyddio hwn yn gydwybodol i roi adborth defnyddiol i ddisgyblion i symud eu dysgu ymlaen. Er enghraifft, maent yn gosod cwestiynau sy'n gofyn i ddisgyblion ymestyn eu hatebion mewn gwyddoniaeth neu esbonio eu syniadau ymhellach wrth ddatrys problemau mewn mathemateg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae adborth wedi'i

gyfyngu i gamgymeriadau sylfaenol ac nid yw'n helpu disgyblion i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth asesu yn bwrpasol i helpu llywio eu cynllunio a nodi'r disgyblion hynny sydd angen cymorth. Maent yn nodi'n gyflym ddisgyblion sydd efallai angen cymorth ychwanegol, ac yn gweithio gyda thîm dynodedig o gynorthwywyr addysgu i sicrhau bod darpariaeth briodol a sensitif yn cael ei rhoi ar waith. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn hyblyg, ac fe gaiff ei monitro'n briodol ar gyfer ei heffaith ar gynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae amrywiaeth o ymyriadau 'hwb' tymor byr yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae strategaethau fel edrych trwy lyfrau disgyblion fel tîm staff yn cefnogi dealltwriaeth ar y cyd a chywir o gynnydd disgyblion yn yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn dda. Ymgorfforir hyn ym mywyd a gwaith yr ysgol, ac mae'n cynnwys trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddysgu am ddewisiadau bywyd iach wrth greu rhandir ar dir yr ysgol i amlygu pwysigrwydd bwyta ffrwythau a llysiau ffres.

Trwy grwpiau niferus llais y disgybl, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson a gwerth chweil i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau pwysig. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol ac yn rhoi cyfleoedd i'r holl ddisgyblion awgrymu nid yn unig beth maent yn ei ddysgu a sut, ond hefyd i ddylanwadu ar bolisi a gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd ysgol ac yn teimlo'n falch o fod yn rhan o'i theulu. Er enghraifft, mae 'Criw Iaith' yr ysgol yn datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer codi proffil y Gymraeg ar draws yr ysgol gan ddefnyddio fideos a gwasanaethau.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn i nodi anghenion penodol disgyblion, ac yn rhoi cymorth tra ystyriol iddynt ar gyfer eu hiechyd corfforol a'u lles emosiynol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chynorthwywyr addysgu, ysgolion eraill, ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi bod yn effeithiol yn cefnogi dysgu a lles disgyblion ar ôl y pandemig diweddar.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cynhwysol sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Caiff hyn ei ymestyn gan god yr ysgol sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion yn chwarae'n deg, yn cydweithredu â'i gilydd, yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol, yn parchu pobl eraill ac yn gwerthfawrogi eu cyflawniadau. Mae'n annog disgyblion i ddathlu elfennau tebyg a gwahaniaethau ac yn eu helpu i ddechrau deall materion pwysig yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r ysgol yn hyrwyddo empathi a thosturi yn effeithiol trwy annog disgyblion i ystyried amgylchiadau pobl eraill, ac yn cynnig cymorth ble gallant, er enghraifft trwy gyfrannu at elusennau fel Plant mewn Angen ac i gynorthwyo pobl yn Wcráin.

Mae staff yn dechrau datblygu cyfleoedd i annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol trwy eu hastudiaethau. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion wedi bod yn rhan o brosiect ysgol gyfan i ddylunio murlun i ddarlunio nodau, gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Gweithiodd disgyblion gyda chynrychiolwyr o'r gymuned leol i amlygu geiriau sy'n bwysig iddyn nhw a delweddau wedi'u peintio i ddarlunio pob gair i addurno cyntedd yr ysgol. Hefyd, cymerodd y disgyblion ran mewn prosiect celf ysgol gyfan i wella toiledau'r ysgol gan ddefnyddio delweddau o'r ardal leol.

Mae datblygiadau diweddar mewn cynllunio'r cwricwlwm yn dechrau helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant, a sut maent yn cysylltu â'r byd ehangach. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae'r agwedd hon.

Mae gan yr ysgol ymagwedd drylwyr at ddiogelu a monitro presenoldeb, sy'n creu diwylliant effeithiol o ddiogelwch a lles o fewn cymuned yr ysgol ac ar-lein. Mae staff, disgyblion a llywodraethwyr yn hyrwyddo'r diwylliant hwn yn dda, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau diogelwch disgyblion ar-lein, sy'n effeithiol iawn ac wedi cael ei gydnabod trwy ennill gwobr genedlaethol. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gweithio'n effeithiol gydag uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Llangyfelach i roi lles a chynnydd disgyblion wrth wraidd gweledigaeth ac ethos yr ysgol. Ochr yn ochr â thîm ymroddgar ac effeithiol o staff, mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu hysgol, ac at ei gilydd.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn defnyddio medrau staff yn bwrpasol i greu dealltwriaeth ar y cyd o werthoedd a disgwyliadau proffesiynol ar gyfer dysgu disgyblion. O ganlyniad, mae gan bob un o'r staff ffocws clir ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol, ac yn cyflawni eu cyfrifoldeb i gefnogi lles disgyblion yn ddiwyd.

Mae prosesau'r ysgol i werthuso'i heffeithiolrwydd wedi'u gwreiddio'n dda ac yn seiliedig ar amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r systemau i wella ansawdd yn cynnwys gwrando ar ddysgwyr ac edrych ar eu gwaith, arsylwi gwersi a defnydd priodol o wybodaeth asesu. O ganlyniad, yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i osod targedau priodol ar gyfer gwella. Maent yn gwneud yn siŵr fod pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar feysydd y nododd yr ysgol eu bod yn flaenoriaeth, ac yn gwerthuso llwyddiant camau gweithredu yn effeithiol. Un o gryfderau ymagwedd yr ysgol yw'r amrywiaeth eang o staff a disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro. Maent yn cyfrannu at adolygiadau rheolaidd o gynnydd tuag at nodau gwella, ac yn meddu ar ddealltwriaeth gyfoes o'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda, ac ym mha feysydd y mae angen iddi wella. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw prosesau hunanwerthuso yn nodi meysydd pwysig i'w gwella, er enghraifft yr anghysondebau mewn addysgu effeithiol ar draws yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr a staff wedi datblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni, ac maent yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithlon trwy ap, cylchlythyrau a negeseuon e-bost yr ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau yn hynod weithgar yn yr ysgol ac wedi codi arian sylweddol i helpu gwella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, maent wedi sefydlu prosiectau celf, wedi helpu prynu offer TGCh, gan gynnwys gogls realiti rhithwir, ac wedi cefnogi datblygu llwybrau dringo yn yr awyr agored. Er y gofynnir am farn rhieni, er enghraifft trwy holiaduron, nid yw hi bob amser yn glir i'r holl randdeiliaid sut mae'r ymatebion hyn yn effeithio ar wella'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r pennaeth ac yn ei ddwyn i gyfrif yn briodol fel ffrindiau beirniadol. Mae uwch arweinwyr yn rhoi gwybod i'r llywodraethwyr yn rheolaidd am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Maent yn trefnu iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau i ennill dealltwriaeth uniongyrchol o waith yr ysgol, sydd o fudd i wella'r ysgol. Er enghraifft, trwy weithio ochr yn ochr ag athrawon a disgyblion mewn teithiau dysgu ac edrych ar ansawdd gwaith disgyblion, mae llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o arferion presennol yr ysgol.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gyd-destun yr ysgol o fewn ei chymuned, ac maent yn cynorthwyo'r ysgol yn dda i fynd i'r afael â phroblemau amddifadedd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i wella deilliannau disgyblion trwy raglenni ymyrraeth, a gyflwynir yn effeithiol gan dîm o gynorthwywyr addysgu ymroddgar. Defnyddir cyllid dynodedig ychwanegol yn bwrpasol, er enghraifft i brynu adnoddau i atal allgáu digidol. Mae llywodraethwyr yn gweithio gydag arweinwyr i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

Mae gweithdrefnau i reoli perfformiad staff yn gadarn ac yn datblygu gwybodaeth a medrau staff yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfle i fanteisio ar gyfleoedd perthnasol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol ac maent yn cysylltu hyn yn agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig, mae staff wedi cael cyfleoedd cyfyngedig i gydweithio â'u cydweithwyr a rhai mewn ysgolion eraill, i rannu arfer dda a mireinio ymagweddau at addysgu a dylunio'r cwricwlwm.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  07/07/2022